




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diogelu gwybodaeth fiometrigr dysgwyr – drafft

Cyngor i gyrff llywodraethu, penaethiaid,
staff ysgolion a sefydliadau addysg
bellach

www.cymru.gov.uk



Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau rhif: 075/2012
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2012

Diogelu gwybodaeth fiometrigr dysgwyr – drafft

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu ysgolion; penaethiaid; staff ysgolion; penaethiaid a staff sefydliadau addysg bellach; dysgwyr a rhieni.
- Trosolwg** Mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn gwneud darpariaeth i reoleiddio'r defnydd o wybodaeth fiometrigr dysgwyr drwy osod dyletswydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gael caniatâd ysgrifenedig rhieni cyn y gellir casglu unrhyw wybodaeth fiometrigr am ddysgwr o dan 18 oed.
- Camau i'w cymryd** Mae'r canllawiau drafft hyn a'r ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â'r canllawiau yn gofyn am farn pobl ar ddiogelu gwybodaeth fiometrigr dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y ddogfen hon at:
Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: IMS@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Dogfennau cysylltiedig** *Diogelu gwybodaeth fiometrigr dysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach (2012)*
Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
Deddf Diogelu Data 1998

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Data biometrig	3
Y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012	4
Y Ddeddf Diogelu Data 1998	7
Cwestiynau cyffredin	8
Adnoddau cysylltiedig	10
Templed o'r ffurflen hysbysu	11
Ffurflen ganiatâd ar gyfer ysgolion/sefydliadau addysg bellach – defnyddio data biometrig	13

Cyflwyniad

Y cyngor hwn

Mae hwn yn gyngor anstatudol gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Bwriedir iddo egluro'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan ysgolion a sefydliadau addysg bellach os byddant yn defnyddio **systemau adnabod biometrig awtomataidd**.

Mae'r cyngor hwn yn disodli *Becta guidance on biometric technologies in schools* (Becta, 2007).

Dyddiad dod i ben/adolygu

Caiff y cyngor hwn ei gyhoeddi at **ddibenion ymgynghori yn unig**. Caiff ei adolygu pan fydd y broses ymgynghori wedi dod i ben.

Â pha ddeddfwriaeth y mae'r cyngor hwn yn gysylltiedig?

Mae'r cyngor hwn yn gysylltiedig â'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998.

I bwy y mae'r cyngor hwn?

Mae'r cyngor hwn wedi'i anelu at berchenogion, cyrff llywodraethu, penaethiaid a phrifathrawon **pob** ysgol¹ a sefydliad addysg bellach.

Bydd o ddefnydd hefyd i staff ysgolion a staff sefydliadau addysg bellach, rhieni a dysgwyr.

Pwyntiau allweddol

- Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach sy'n defnyddio **systemau adnabod biometrig** (gweler Beth yw technoleg adnabod biometrig? ar dudalen 3) drin y data a gesglir â'r gofal priodol ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998.
- Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach sicrhau bod pob rhiant yn cael gwybod gan sicrhau y ceir caniatâd ysgrifenedig o leiaf un rhiant cyn i **ddata biometrig** dysgwyr (gweler Beth yw data biometrig? ar dudalen 3) gael ei gasglu a'i **brosesu** (gweler Beth mae prosesu data yn ei olygu? ar dudalen 3) at ddibenion system adnabod fiometrig awtomataidd. Mae hyn yn gymwys i bob dysgwr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach **o dan 18 oed**.
- Ni chaniateir i ysgolion a sefydliadau addysg bellach brosesu data biometrig dysgwr (o dan 18 oed) sy'n gwrthwynebu neu'n gwrthod cymryd rhan mewn camau i brosesu ei ddata biometrig neu lle mae

¹ Mae 'pob ysgol' yn cynnwys ysgolion annibynnol a phob math o ysgolion a gynhelir.

rhiant wedi gwrthwynebu neu lle nad oes unrhyw riant wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r camau prosesu.

- Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau addysg bellach ddarparu dulliau amgen rhesymol o gael gafael ar wasanaethau i'r dysgwyr hynny na fyddant yn defnyddio system adnabod fiometrïg awtomataidd.

Data biometrig

Beth yw data biometrig?

Gwybodaeth bersonol am nodweddion corfforol neu ymddygiadol unigolyn a all gael ei defnyddio i adnabod yr unigolyn hwnnw yw **data biometrig**; gall gynnwys olion bysedd, siâp wyneb, patrymau'r retina a'r iris, a mesuriadau'r llaw.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried bod pob math o wybodaeth fiometrig yn wybodaeth bersonol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998; mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael gafael arni, ei defnyddio a'i storio yn unol â'r Ddeddf honno (gweler **Y Ddeddf Diogelu Data 1998** ar dudalen 7).

Mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â defnyddio'r data hwn mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach (gweler tudalen 4).

Beth yw technoleg adnabod biometrig?

Technoleg sy'n mesur nodweddion corfforol neu ymddygiadol unigolyn drwy gyfarpar sy'n gweithredu'n awtomataidd (h.y. yn electronig) ac sy'n defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn ei adnabod yw **technoleg adnabod fiometrig**.

Gall systemau adnabod biometrig ddefnyddio llawer o wahanol fathau o nodweddion corfforol neu ymddygiadol megis y rhai a restrir uchod.²

Beth mae prosesu data yn ei olygu?

Mae 'prosesu' gwybodaeth fiometrig yn cynnwys cael gafael ar y data, ei gofnodi neu ei gadw neu gyflawni unrhyw weithred neu gyfres o weithrediadau ar y data. Mae system adnabod fiometrig awtomataidd yn prosesu data wrth:

- gofnodi data biometrig dysgwyr, er enghraifft, drwy sganiwr olion bysedd
- storio data yn ymwneud ag olion bysedd dysgwyr ar system gronfa ddata
- defnyddio'r data fel rhan o broses electronig sy'n cymharu ac yn paru gwybodaeth fiometrig er mwyn adnabod dysgwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn ar gael o'r adnoddau a restrir ar dudalen 10.

² Mae systemau biometrig fel arfer yn storio templedi mathemategol sy'n golygu bod modd adnabod nodweddion corfforol yn hytrach na delweddau o'r nodweddion eu hunain; data biometrig yw'r templedi hyn hefyd.

Y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

Caniatâd rhieni

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud:

- 1) Mae'n **rhaidd** i ysgolion a sefydliadau addysg bellach hysbysu **pob** rhiant³ â dysgwyr o dan 18 oed pan fwriadant gasglu data biometrig dysgwr ac wedyn ei ddefnyddio fel rhan o system adnabod fiometrig awtomataidd. Ar yr amod nad yw'r dysgwr yn gwrthwynebu ac nad oes unrhyw riant yn gwrthwynebu ar ffurf ysgrifenedig, dim ond caniatâd ysgrifenedig un rhiant y bydd ei angen.
- 2) Ni fydd angen i ysgolion a sefydliadau addysg bellach hysbysu rhiant penodol na cheisio ei ganiatâd os yw'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn fodlon ar y canlynol:
 - a. ni ellir dod o hyd i'r rhiant, er enghraifft pan na wyddys ble mae'r rhiant neu pan na wyddys pwy ydyw;
 - b. nid oes gan y rhiant y galluedd⁴ i wrthwynebu nac i roi caniatâd i brosesu gwybodaeth fiometrig dysgwr, er enghraifft pan fo salwch meddwl ar y rhiant;
 - c. pan fo lles y dysgwr yn ei gwneud yn ofynnol i beidio â chysylltu â'r rhiant, er enghraifft pan fo dysgwr wedi'i wahanu oddi wrth riant sy'n ei gam-drin a lle na chaniateir i'r rhiant hwnnw wybod ble mae'r dysgwr; neu
 - d. pan nad yw'n rhesymol ymarferol fel arall i gael caniatâd y rhiant.
- 3) Pan na ellir hysbysu unrhyw un o'r rhieni yn sgil y rhesymau a nodir uchod (byddai hynny'n golygu na ellir cael caniatâd wrth unrhyw un ohonynt):
 - a. mae'n rhaidd anfon hysbysiad at bawb sy'n gofalu am y dysgwr ac mae'n rhaidd cael caniatâd ysgrifenedig gan o leiaf un gofalwr oni bai bod paragraff (b) isod yn gymwys;
 - b. pan fo dysgwr yng ngofal awdurdod lleol neu pan gaiff ei letya neu ei gynnal gan sefydliad gwirfoddol, mae'n rhaidd cael caniatâd yr awdurdod lleol, neu yn ôl yr achos, y sefydliad gwirfoddol.
- 4) Gallai ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar yr adeg y caiff dysgwr ei gofrestru mewn ysgol, hysbysu rhieni eu bod yn bwriadu casglu ac wedyn ddefnyddio gwybodaeth fiometrig y dysgwr fel rhan o system adnabod fiometrig awtomataidd a cheisio caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny – dylai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ofyn am fanylion y ddau riant at y ddau ddiben (cofrestru a hysbysu o fwriad i brosesu gwybodaeth fiometrig).

³ Mae rhieni yn cynnwys rhieni biolegol dysgwr yn ogystal ag unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant am ddysgwr.

⁴ O fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

5) O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i ysgolion gadw cofrestr dderbyn sy'n cynnwys enw a chyfeiriad pob unigolyn y mae'r ysgol yn gwybod ei fod yn rhiant i'r dysgwr, gan gynnwys rhieni dibreswyl. Felly, dylai fod gan ysgolion sy'n dymuno hysbysu a cheisio caniatâd i brosesu gwybodaeth fiometrig dysgwr ar unrhyw adeg ar ôl i ddysgwr gael ei gofrestru yn yr ysgol feddu ar fanylion cyswllt y rhan fwyaf o rieni yn y gofrestr dderbyn. Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn wylidwrus o'r ffaith ei bod yn bosibl na fydd y gofrestr dderbyn yn cynnwys manylion y ddau riant, am ryw reswm. Os mai dim ond enw un rhiant sydd wedi'i gynnwys yn y gofrestr dderbyn, dylai ysgolion ystyried a ellir neu a ddylid cymryd unrhyw gamau rhesymol i gael manylion y rhiant arall (er enghraifft, drwy ofyn i'r rhiant sydd wedi'i gynnwys yn y gofrestr dderbyn neu, pan fo'r ysgol yn gwybod bod yr awdurdod lleol neu asiantaeth arall yn ymwneud â'r dysgwr a'i deulu, drwy wneud ymholiadau i'r awdurdod lleol neu'r asiantaeth arall).

6) Ni ddisgwylir i ysgolion na sefydliadau addysg bellach ddefnyddio gwasanaethau 'olrheiniwr pobl' nac asiantaethau ditectif i wneud hyn ond disgwylir iddynt gymryd camau rhesymol i leoli rhiant cyn y gallant ddibynnu ar yr eithriad yng [nghymal] 27(1)(a) (nid oes angen hysbysu rhiant os na ellir dod o hyd i'r rhiant)

7) Ni fydd byth unrhyw amgylchiadau lle y gall ysgol neu sefydliad addysg bellach brosesu gwybodaeth fiometrig dysgwr (at ddibenion system adnabod biometrig awtomataidd) heb fod un o'r bobl uchod wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig.

8) Dylai hysbysiad a anfonir at rieni gynnwys gwybodaeth lawn am y camau i brosesu gwybodaeth fiometrig y dysgwr. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am y math o wybodaeth fiometrig i'w chasglu, sut y caiff ei defnyddio, hawl y rhiant a'r dysgwr i wrthod rhoi caniatâd neu i dynnu eu caniatâd yn ôl, a dyletswydd yr ysgol i ddarparu trefniadau amgen i'r dysgwyr hynny na all eu gwybodaeth gael ei phrosesu. Ceir 'ffurflen hysbysu' a 'ffurflen ganiatâd' enghreifftiol ar dudalennau 11–13.

Hawl y dysgwr i wrthod

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud:

1) Os bydd dysgwr o dan 18 oed yn gwrthwynebu neu'n gwrthod cymryd rhan (neu barhau i gymryd rhan) mewn unrhyw beth sy'n golygu bod ei ddata biometrig yn cael ei brosesu ar gyfer system adnabod biometrig, mae'n **rhaid** i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sicrhau **na chaiff** data'r dysgwr ei brosesu heb ystyried unrhyw ganiatâd a roddwyd gan ei rieni.

Noder y canlynol hefyd:

2) Dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach gymryd camau i sicrhau bod dysgwyr yn deall y gallant wrthwynebu neu wrthod caniatáu i'w data biometrig gael ei ddefnyddio ac os byddant yn gwneud hynny, bydd yn rhaid i'r ysgolion ddarparu ffordd amgen iddynt gael gafael ar y gwasanaeth perthnasol. Dylai rhieni hefyd gael gwybod am hawl eu plentyn i wrthwynebu neu wrthod a dylid eu hannog i drafod hyn â'u plentyn.

Darparu trefniadau amgen

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud:

- 1) Mae'n rhaid darparu trefniadau amgen rhesymol i ddysgwyr nad ydynt yn defnyddio systemau adnabod biometrig awtomataidd naill ai am fod eu rhieni wedi gwrthod rhoi caniatâd neu am eu bod hwy eu hunain yn gwrthod cymryd rhan.

Y Ddeddf Diogelu Data 1998

- 1) Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach fel **rheolyddion data** brosesu data personol dysgwyr, gan gynnwys data biometrig, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 yn **ychwanegol at** y gofynion yn Neddf Diogelu Data 1998 y mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach barhau i gydymffurfio â hwy.
- 2) Mae gan y Ddeddf Diogelu Data wyth egwyddor y mae'n rhaid i bob rheolydd data gydymffurfio â hwy. Ceir rhagor o fanylion am yr egwyddorion hyn o'r adnoddau a restrir ar dudalen 10.
- 3) Wrth brosesu data personol dysgwr, gan gynnwys unrhyw ddata o'r fath a ddefnyddir at ddibenion systemau adnabod biometrig awtomataidd, mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach:
 - a. Cadw data biometrig yn **ddiogel** er mwyn atal defnydd anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r data.
 - b. **Peidio â storio data biometrig am gyfnod hwy nag sydd angen.** Felly, dylai ysgol neu sefydliad addysg bellach ddinistrio unrhyw ddata a gedwir ar system fiometrig pan na fydd dysgwr yn defnyddio'r system mwyach. Er enghraifft, dylai'r data gael ei ddinistrio os bydd y dysgwr yn gadael yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach neu os bydd rhiant yn tynnu ei ganiatâd yn ôl neu os nad yw'r dysgwr am i'w ddata biometrig gael ei brosesu mwyach.
 - c. Sicrhau mai dim ond at y dibenion y casglwyd y data ar eu cyfer y defnyddir data o'r fath ac na chaiff ei ddatgelu'n anghyfreithlon i drydydd partïon.
 - d. I gael rhagor o gyngor ymarferol, gweler yr adnoddau a restrir ar dudalen 10.

Cwestiynau cyffredin

C: Pa wybodaeth y dylai ysgolion a cholegau addysg bellach ei rhoi i rieni/dysgwyr i'w helpu i benderfynu a ddylent wrthwynebu neu roi eu caniatâd?

A: Mae'n rhaid i unrhyw wrthwynebiad neu ganiatâd gan riant fod yn seiliedig ar wybodaeth wrth gwrs a dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach gymryd camau i sicrhau bod rhieni yn cael gwybodaeth lawn am y camau i brosesu data eu plentyn, gan gynnwys disgrifiad o'r math o system maent yn bwriadu ei defnyddio, natur y data sensitif y byddant yn ei brosesu, dibenion y gwaith prosesu a sut y caiff y data ei gasglu, ei defnyddio a'i storio.

C: Beth sy'n digwydd os bydd un rhiant yn anghytuno â'r llall?

A: Bydd yn ofynnol i ysgolion a sefydliadau addysg bellach hysbysu pob rhiant eu bod yn bwriadu casglu a phrosesu gwybodaeth fiometrigrig y dysgwr. Os bydd un rhiant yn gwrthwynebu, yna ni chaniateir i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach brosesu data'r dysgwr.

C: Sut bydd hawl y dysgwr i wrthod yn cael ei weithredu'n ymarferol – a oes angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig?

A: Nac oes – nid oes disgwyl i'r dysgwr wrthod yn ysgrifenedig. Gall dysgwr hŷn ddweud ei fod yn gwrthod i'w ddata biometrigrig gael ei brosesu. Gall dysgwr ifancach ddangos ei amharodrwydd i gymryd rhan yn y broses gorfforol o roi'r data. Yn y ddau achos, ni fydd hawl gyda'r ysgol na'r sefydliad addysg bellach i brosesu'r data a bydd angen iddynt ddarparu ffordd amgen resymol o gael mynediad i'r gwasanaeth perthnasol.

C: A yw'n ofynnol i ysgolion/sefydliadau addysg bellach ofyn i rieni/dweud wrth rieni cyn cyflwyno system adnabod biometrigrig awtomataidd?

A: Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â rhieni cyn gosod system fiometrigrig awtomataidd, dim ond bod rhieni yn cael eu hysbysu a bod o leiaf un rhiant yn rhoi caniatâd cyn i ddata biometrigrig ei blentyn gael ei gasglu neu ei ddefnyddio at ddibenion system o'r fath. Cyfrifoldeb ysgolion a sefydliadau addysg bellach yw penderfynu a ydynt o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â dysgwyr a rhieni ymlaen llaw.

C: A oes angen i ysgolion/sefydliadau addysg bellach adnewyddu caniatâd bob blwyddyn?

A: Nac oes – mae'r caniatâd ysgrifenedig gwreiddiol yn ddilys nes y caiff ei dynnu'n ôl. Os bydd rhiant neu'r dysgwr yn gwrthwynebu'r prosesu ar unrhyw adeg, yna mae'n rhaid iddo ddod i ben. Pan fydd y dysgwr yn gadael yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, dylai ei ddata gael ei ddileu o system yr ysgol/sefydliad addysg bellach.

C: A all y dysgwr neu riant dynnu caniatâd yn ôl?

A: Bydd rhieni yn gallu tynnu eu caniatâd yn ôl, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg. Yn ogystal, bydd unrhyw riant arall yn gallu gwrthwynebu'r prosesu ar unrhyw adeg. Mae hawl y dysgwr i wrthod yn gymwys i roi'r data biometrigrig a'r gwaith parhaus o'i brosesu. Os bydd y dysgwr yn gwrthwynebu'r camau i brosesu data biometrigrig ar unrhyw adeg, mae'n rhaid i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach rhoi terfyn ar wneud hynny.

C: A fydd caniatâd a roddir wrth ddechrau ysgol gynradd neu uwchradd yn ddilys nes bod y plentyn yn gadael yr ysgol honno?

A: Bydd. Bydd y caniatâd yn ddilys nes bod y dysgwr yn gadael yr ysgol. Os bydd y rhieni neu'r dysgwr yn penderfynu ar unrhyw adeg na ddylai'r data gael ei brosesu, mae ganddynt yr hawl iddo gael ei ddileu o system yr ysgol.

C: A all yr ysgol/sefydliadau addysg bellach hysbysu rhieni a derbyn caniatâd drwy'r e-bost?

A: Gall – ar yr amod bod yr ysgol/sefydliadau addysg bellach yn fodlon bod y manylion cyswllt e-bost yn gywir a bod y caniatâd a geir yn ddilys.

C: A ofynnir i rieni am ganiatâd ôl-weithredol?

A: Na – ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw brosesu sydd wedi digwydd cyn i'r darpariaethau yn y Ddeddf ddod i rym. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i unrhyw ysgol/sefydliadau addysg bellach a oedd yn dymuno defnyddio neu barhau i ddefnyddio systemau adnabod biometrig awtomataidd ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym, sicrhau ei bod wedi anfon yr hysbysiadau angenrheidiol at bob rhiant ac wedi cael caniatâd ysgrifenedig o leiaf un rhiant **cyn** parhau i ddefnyddio systemau o'r fath neu ddechrau eu defnyddio.

C: A yw'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu technolegau eraill megis sganio'r gledd a'r iris?

A: Mae'r ddeddfwriaeth yn cwmpasu pob system sydd, drwy ddefnyddio cyfarpar awtomataidd, yn cofnodi neu'n defnyddio nodweddion corfforol neu ymddygiadol at ddiben adnabod. Bydd hyn yn cynnwys systemau sy'n adnabod y gleddr, yr iris neu'r wyneb ymhlith eraill, yn ogystal ag olion bysedd.

C: A oes angen hysbysu rhieni a chael eu caniatâd i ddefnyddio ffotograffau a theledu cylch cyfyng mewn ysgolion/sefydliadau addysg bellach?

A: Nac oes. Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach fodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998 wrth ddefnyddio theledu cylch cyfyng ar eu safleoedd at ddibenion diogelwch cyffredinol neu wrth ddefnyddio ffotograffau o ddysgwyr fel rhan o system adnabod bapur neu fel rhan o system awtomataidd sy'n defnyddio cod bar i alluogi dysgwr i gael gafael ar wasanaethau. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hyn yn ddigonol i reoleiddio'r defnydd o deledu cylch cyfyng a ffotograffau at ddibenion o'r fath. Byddai systemau cardiau adnabod â ffotograff lle y caiff ffotograff dysgwr ei sganio er mwyn rhoi gwasanaethau iddynt yn cael eu cwmpasu am fod systemau o'r fath yn systemau adnabod biometrig awtomataidd.

C: A oes angen hysbysu rhieni neu gael eu caniatâd pan fydd dysgwr yn defnyddio gwefannau neu feddalwedd fasnachol safonol sy'n defnyddio technoleg adnabod wyneb?

A: Dim ond camau i brosesu data biometrig a gymerir gan neu ar ran yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach a gwmpesir yn y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth newydd. Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach am ddefnyddio meddalwedd o'r fath am waith ysgol, yna bydd y gofyniad i hysbysu rhieni a chael caniatâd rhieni yn gymwys. Fodd bynnag, os bydd dysgwr yn defnyddio'r feddalwedd hon at ei ddibenion personol ei hun, yna nid yw'r darpariaethau yn gymwys, hyd yn oed os defnyddir y feddalwedd gan ddefnyddio cyfarpar yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach.

Adnoddau cysylltiedig

Canllawiau'r Adran Addysg a Sgiliau i ysgolion ar gyfathrebu â rhieni a chael caniatâd.

www.wales.gov.uk/publications/circular/2007/1552456/?skip=1&lang=cy

Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar fiometreg mewn ysgolion 2008.

www.ico.gov.uk/upload/documents/library/data_protection/detailed_specialist_guides/fingerprinting_final_view_v1.11.pdf

Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelu data.

www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection/the_guide.aspx

Canllaw'r Sefydliad Safonau Prydeinig ar fiometreg.

<http://shop.bsigroup.com/en/Browse-by-Subject/Biometrics/?t=r>

Templed o'r ffurflen hysbysu

Hysbysiad o fwriad i brosesu gwybodaeth fiometrig dysgwyr

- Gwybodaeth am nodweddion corfforol neu ymddygiadol unigolyn a all gael ei defnyddio i'w adnabod yw **gwybodaeth fiometrig**.
- Mae'r ysgol/sefydliad addysg bellach yn bwriadu casglu a phrosesu gwybodaeth fiometrig dysgwyr. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio fel rhan o system adnabod fiometrig awtomataidd, sy'n mesur nodweddion corfforol er mwyn adnabod unigolion. Bydd y system yn storio gwybodaeth sy'n cynrychioli mesuriadau yn ymwneud â **[nodwch y wybodaeth fiometrig i'w defnyddio]** eich plentyn ar ffurf ddiigidol yn hytrach na delwedd o **[nodwch y wybodaeth fiometrig i'w defnyddio]** eich plentyn.
- Ni fydd yr ysgol/sefydliad addysg bellach yn defnyddio'r wybodaeth fiometrig at unrhyw ddiben ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod. Bydd yr ysgol/sefydliad addysg bellach yn storio'r wybodaeth fiometrig a gesglir mewn ffordd ddiogel ac ni fydd yn rhannu'r wybodaeth hon ag unrhyw drydydd partïon ac eithrio **[nodwch unrhyw drydydd parti y bwriedir rhannu'r wybodaeth ag ef, e.e. cyflenwr X o systemau biometrig]**.
- Os nad ydych am i wybodaeth fiometrig eich mab/merch gael ei phrosesu gan yr ysgol/sefydliad addysg bellach, byddwn yn darparu trefniadau amgen rhesymol sy'n galluogi eich plentyn i ddefnyddio **[nodwch y gwasanaeth perthnasol, e.e. llyfrgell yr ysgol]**.
- Gallwch wrthwynebu, ar ffurf ysgrifenedig, y camau arfaethedig i brosesu gwybodaeth fiometrig eich plentyn ar unrhyw adeg neu, os byddwch yn rhoi caniatâd, gallwch dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg ond mae'n rhaid gwneud hynny ar ffurf ysgrifenedig.
- Gall eich mab/merch wrthwynebu neu wrthod caniatáu i'w wybodaeth/gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio ar unrhyw adeg hyd yn oed os byddwch wedi rhoi eich caniatâd chi. Byddwn yn darparu trefniadau amgen rhesymol sy'n galluogi eich plentyn i ddefnyddio **[nodwch y gwasanaeth perthnasol, e.e. llyfrgell yr ysgol]**. Cofiwch sicrhau eich bod yn egluro hyn i'ch plentyn.
- Pan fydd eich mab/merch yn gadael yr ysgol/sefydliad addysg bellach, neu os na fydd yn defnyddio'r system fiometrig mwyach am ryw reswm arall, caiff ei ddata/data biometrig ei ddileu.
- Gellir cael rhagor o wybodaeth a chanllawiau drwy'r dolenni canlynol:

– Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar fiometreg mewn ysgolion 2008

www.ico.gov.uk/upload/documents/library/data_protection/detailed_specialist_guides/fingerprinting_final_view_v1.11.pdf

– Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelu data
www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection/the_guide.aspx

Ffurflen ganiatâd ar gyfer ysgolion/sefydliadau addysg bellach – defnyddio data biometrig

Llofnodwch y ffurflen isod a'i dyddio os byddwch yn cytuno y gall yr ysgol/sefydliad addysg bellach ddefnyddio gwybodaeth fiometrig eich plentyn (fel y'i disgrifiwyd uchod) i **[disgrifiwch at ba ddiben y defnyddir y data, e.e. gweinyddu llyfrgell/ffreutur yr ysgol]**

.....[enw'r plentyn]

Rhiant 1

Dyddiad.....

Rhiant 2

Dyddiad.....